CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
16 Gorffennaf 2019, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Williams, D Pritchard, A Wyn, A C Jones, D ap Rhobert, W Williams	
YMDDIHEURIADAU: Cyng C McGregor, D Roberts, C Jones, D Rees (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng A Williams.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng A Williams - cais cynllunio FPL/2019/172 Bryn Brochion, Talwrn
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 11.06.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - Mewn llaw
4.2	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.3	**Porth y Dryw** - Mae'r gwaith wedi'i cwblhau a bydd y Clerc yn diolch i'r Cyngior Sir
4.4	**Lay By Llangwyllog** - Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir ystyried gosod arwydd dim parcio
4.5	**Baw ci Talwrn** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir, hefyd bydd y Clerc yn gofyn i'r PCSO cadw llygad ar y mater
4.6	**Sedd Wâg** - Mae'r Clerc yn disgwyl i'r Cyngor Sir paratoi hysbyseb
4.7	**Llwybr Tre Ddewi** - Bydd y Clerc yn gwneud cais i gofrestru y llwybr
4.8	**Llwybr Cefn Poeth Mawr** - Mae'r gwaith wedi'i cwblhau
4.9	**Japanese knotweed** - Mae'r Clerc yn disgwyl lluniau gan pwyllgor y Neuadd
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	Ymgynghoriad Cynllunio FPL/2019/172 Bryn Brochion, Talwrn. Darllenwyd llythyr gan Mrs Carol Hughes, Bronallt, Talwrn yn gwrthwynebu y cais. Cytunwyd y Cyngor i wrthwynebu am yr un rhesymau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - Penodi Pencampwr y Gymraeg - Cytunodd Cyng D ap Rhobert cynrychioli y Cyngor am un flwyddyn
6.2	Tyn Llidiart - ymateb gan y Cyngor Sir yn dweud bod y coeden wedi cael ei dorri
	Llofnod……Cadeirydd 24.09.19

6.3	Elfed Williams - tir ger Bryn Brochion, Talwrn - neges gan Elfed Williams - " Allan o gwrteisi, cadarnhaf ein bod bore 'ma wedi cyflwyno cais cynllunio am 7 o anneddau ar y safle yma" - gweler 5.1
6.4	Elfed Williams - Japanese knotweed - Llythyr gan Mr Williams yn dweud bod Japanese Knotweed yn tyfu ar tir ger Bryn Brochion ac yn gofyn i'r Cyngor Cymuned trefnu cael gwared arno. Bydd y Clerc yn ymateb: Nid yw Cyngor Cymuned Llanddyfnan yn berchen ar y tir ac o ganlyniad nid ydynt yn gyfrifol amdano yn gyfreithiol. Hoffem ddatgan yn bendant nad yw o dan ein rheolaeth.
6.5	Mynwent Llanddyfnan - Trafodwyd cwynion am cyflwr y fynwent. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y contractwr
6.6	Ysgol Feithrin, Talwrn - Ebost yn holi am grantiau. Bydd y Clerc yn ymateb yn awgrymu bod y swyddogion yn cysylltu a Medwrn Mon, hefyd ystyried rhoi cais i mewn i'r Cyngor Cymuned
	MATERION ARIANNOL
7.1	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
7.1	Cytuniwyd i dalu G Hughes £375 (torri gwair)
8	**MATERION ERAILL**
8.1	RAF y Fali - Bydd y Clerc yn anfon llythyr cwyn ynghylch awyrennau sy'n hedfan yn isel
8.2	Dywedodd y Clerc fod ei argraffydd wedi torri. Cytunodd y cyngor ei fod yn prynu un newydd
8.3	Trafodwyd cyflwr Eglwys Sant Dyfnan ar eitemau hanesyddol yn yr eglwys. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw Adran Eiddo yr Eglwys yng Nghymru
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Palmant Maes y Coed - Hafan Deg angen ei dorri
9.2	Cyflwr lonydd Talwrn
	Llofnod……Cadeirydd 24.09.19